

Grŵp Cyngori Pysgodfeydd Morol Cymru (WMFAG)

Nodiadau cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 12 Mawrth 2020, Ystafell Trawscoed, Swyddfa LIC, Rhodfa Padarn – 10am i 3pm

YN BRESENNOL	
Nick O'Sullivan, Cadeirydd, Grŵp Cyngori Pysgodfeydd Morol Cymru Jim Evans, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru Trevor Jones, MSFOMA Kevin Denman, Cymunedau Pysgota De-orllewin Cymru Brett Garner, Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn Mark Roberts, Cwmni Cydweithredol Pysgotwyr Gogledd Cymru Holly Whiteley, Seafish Sean Evans, CNC Gareth Bevington, Dirprwy Gyfarwyddwr, Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru Mike Dowell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru Julian Bray, Polisi a Rheoli Pysgodfeydd Domestig, Llywodraeth Cymru Mike Jones, Polisi a Thrafodaethau Pysgodfeydd Rhyngwladol, Llywodraeth Cymru Louise Durns, Llywodraeth Cymru (nodiadau)	
1	Croeso ac Ymddiheuriadau: Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb. Cafwyd ymddiheuriadau gan: Gill Bell, MCS UK a Sion Williams, Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn
2	I) Cymeradwyo nodiadau y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Rhagfyr Cymeradwywyd y cofnodion. II) Cynnydd ar y Camau o'r cyfarfod blaenorol Cafwyd adroddiad gan Julian ar y camau o'r cyfarfod blaenorol, y rhan fwyaf ohonynt wedi'u cwblhau. Cam 1 – Ni ddaw unrhyw gydanbyddiaeth gan y cyngor wrth gofrestru, cytunodd Nick i ysgrifennu at CLILC am gyngor ar gysondeb. Cam Gweithredu: Nick Cam 3 – Dylai'r sylwadau ar y poster a ddosbarthwyd gael eu bwydo i Jim Evans a dylid hefyd nodi y blaenoriaethau a'r lleoliadau uchel/canolig. Holly Whiteley i gysylltu gyda FLAG Gogledd Cymru i osgoi dyblygu posibl. Louise i anfon fersiwn electronig o boster at Holly. Camau Gweithredu: Louise a Holly Cam Gweithredu 7 – Gan na chafwyd unrhyw ddiweddariad bydd Gareth yn trafod gyda Bekah Cioffi. Cam Gweithredu: Gareth

YN BRESENNOL	
3	Cyflwyniad – Diweddariad Yn dilyn cyflwyniadau cynharach eglurodd Gareth a Mike sut y byddent yn cydweithio wrth fynd ymlaen gyda Mike yn canolbwyntio ar Bysgodfeydd Rhyngwladol a Morol ond pwysleisiwyd y byddai'r Môr a Physgodfeydd yn parhau fel un is-adran.
4	Rheoli a Gorfodi Rhoddodd GB ddiweddariad ar lafar ar y sefyllfa bresennol o ran rheoli a gorfodi.
5	Polisi a Rheoli Pysgodfeydd Domestig Cyhoeddodd Julian y byddai yr ymgynghoriad ar Reoli Cregyn Moch yn dechrau ar 16 Mawrth 2020. Roedd Jim yn cydnabod y gwaith oedd wedi ei wneud hyd yma a chanmolwyd y trafodaethau â'r diwydiant. Eglurodd Julian y mesurau newydd arfaethedig a sut yr oeddent yn bwriadu sefydlu grŵp Rheoli Cregyn Moch fel is-grŵp o'r WMFAG a fyddai mae'n debyg yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Diolchodd Gareth i'r tîm am eu gwaith ar hyn. Cafwyd diweddariad hefyd ar y ffrydiau gwaith eraill sy'n parhau o fewn y tîm.
6	Y Polisi Pysgodfeydd Rhyngwladol a Thrafodaethau Ymunodd Mike Jones â'r cyfarfod gan roi'r newyddion diweddaraf ar y gwaith sy'n mynd ymlaen yn y maes hwn. Mae LIC yn parhau i roi mewnbwn ar drafodaethau 2021 ac yn disgwyl y cyngor diweddaraf gan ICES i'w ryddhau yn ystod Mehefin/Gorffennaf. Rhoddodd MJ fanylion canlyniad terfynol Cyngor Rhagfyr sydd newydd eu rhyddhau, gan ddiolch i Jim hefyd am ei waith ar hyn ac am fod yn bresennol.
7	Masnach Ryngwladol Cyhoeddodd Gareth bod digwyddiadau bwyd Boston a Brwsels wedi eu gohirio oherwydd y Coronafeirws. Gofynnodd Gareth a oedd digon o dystiolaeth o broblemau neu enghreifftiau ble yr effeithir ar fusnesau ac i'w hanfon ymlaen. Awgrymodd Brett y gallai pysgotwyr helpu gyda gwaith gwyddonol/ymchwil megis torri V ar gimychiaid i arbed sefyllfa ble y mae'r diwydiant yn aros yn ei unfan.
8	Cyflwyno Bil Pysgodfeydd y DU Rhoddodd Gareth y cyflwyniad oedd wedi ei roi'n ddiweddar i aelodau WMAAG, a chynhaliwyd trafodaeth ar rywfaint o gynnwys y Bil. Dyframaethu oedd un o'r meysydd oedd yn cael eu cynnwys a chytunwyd bod yr iaith yn rhwystredig.
9	Datganiad Ardal Forol – Diweddariad Trafododd Sean Evans y papur a ddarparwyd gan CNC.
10	Y diweddaraf am y tîm Gwyddor Pysgodfeydd a Thystiolaeth Awgrymwyd y gallai'r statws RAG weithio orau fel siart Gant a allai hefyd helpu i reoli adnoddau, Gareth i drafod gyda Bekah Cioffi. Cam Gweithredu: Gareth Cynllun olynnu Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop Y Gronfa i fod yn eitem ar yr agenda nesaf – cynhaliwyd trafodaeth ar ba eitemau gafodd eu cynnwys o dan y cyllid oedd ar gael. Cam Gweithredu: Louise Ymchwil Offer Pysgota Trafododd Jim y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau y Pysgota am Offer, roedd y grŵp yn cael eu hannog i gefnogi holiadur y diwydiant.

YN BRESENNOL	
	Y diweddaraf ar Gyflwyno iVMS Gofynnodd Gareth i beidio rhannu mwy ar yr wybodaeth hon ar hyn o bryd.
11	UFA Ni drafodwyd unrhyw fusnes arall. Cafodd y llythyr cyllido gan Escape Gaps ei lofnodi gan Jim Evan ar ddiwedd y cyfarfod.
	Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.

Camau Gweithredu	
Cam 1 : Nick i ysgrifennu at CLILC am gyngor ar gysondeb y gydnabyddiaeth wrth gofrestru gyda'r FSA	NOS/JB
Cam 2: Holly i gysylltu gyda FLAG Gogledd Cymru i osgoi unrhyw ddyblygu posibl ar bosteri canllawiau.	HW
Cam 3: Louise i anfon fersiwn electronig o boster a ddosbarthwyd yn y cyfarfod at Holly	LD
Cam 4: Gareth i drafod diweddariad ar gyfer Gweithredu mewn cofnodion blaenorol – trafod gwaith arolygu posibl gyda Colin, Brett, Mark, Kevin & Jim	GB
Cam 5: Gareth i drafod gyda Bekah Cioffi yr awgrym o newid statws RAG o fewn ei diweddariad i siart Gant a fydd hefyd yn help i reoli adnoddau.	GB
Cam 6: Cais i'r EMFF fod yn eitem ar yr agenda nesaf.	LD